

Edrych ar wasanaethau anabledd dysgu yn Nhorfaen

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - Gwiriad Sicrwydd Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu. Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 37**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:



Gwefannau:

www.arolygiaethgofal.cymru

www.agic.org.uk



Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. [I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.](#)

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#)

Cynnwys

Am yr adroddiad yma.....	4
Beth rydyn ni'n ei wneud	5
Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau	6
Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod	8
Pobl	9
Atal.....	17
Partneriaeth	26
Llesiant.....	30
Beth sy'n digwydd nesaf	35
Geiriau anodd	37

Am yr adroddiad yma



Arolygiaeth Gofal Cymru ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** ydyn ni.



Rhwng **29 Medi** a **1 Hydref 2025**, fe wnaethon ni Archwiliad Sicrwydd o:

- Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a
- Y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.



Mae **Archwiliad Sicrwydd** yn edrych i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.



Mae'r adroddiad yma yn rhannu beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Rydyn ni'n edrych I weld pa mor dda mae cynghorau a byrddau iechyd yn gwneud eu gwaith ac yn helpu pobl.

Mae ein ffocws ar ba mor dda maen nhw'n gweithio yn y 4 maes yma:



1. Pobl – Gwneud yn siŵr bod gan bawb lais a rheolaeth yn eu bywyd.



2. Atal – Cadw'r angen am gefnogaeth yn isel a stopio problemau rhag gwaethygu.



3. Partneriaethau – Gweithio'n dda gydag eraill i ddarparu gwasanaethau da, parhaol.



4. Llesiant – Amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu cefnogi.



Rydyn ni'n edrych I weld ydy gwasanaethau yn dilyn y cyfreithiau:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023.

Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau



Fe wnaethon ni edrych ar gofnodion 24 o bobl. Roedd hyn yn cynnwys:

- Edrych ar gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Siarad â'r person, ei deulu, gofalwyr a gweithwyr allweddol.



Fe wnaethon ni hefyd siarad â 18 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu eu gofalwyr.



Fe wnaethon ni siarad â 29 o weithwyr cyngor a gweithwyr bwrdd iechyd ac edrych ar ddogfennau.

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl

1. Ydych chi'n hoffi'r syniad?

☒ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn siwr

Fe wnaethon niarolygon gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, a gweithwyr cyngor.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Fe wnaethon ni ddod o hyd i waith da yn cael ei wneud.



Ac fe wnaethon ni ddod o hyd i rai pethau sydd angen bod yn well.



Mae yna rai pethau rydyn ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd eu gwneud.



Pan rydyn ni'n dweud **rhaid**, mae hyn yn meddwl newidiadau sydd angen eu gwneud i ddilyn y gyfraith.



Pan rydyn ni'n dweud **dylai**, mae hyn yn meddwl newidiadau fydd yn gwneud pethau'n well ond dydyn nhw ddim yn gyfraith.

Gwaith da



Fe wnaeth bron pob personddweud fod eu gofal yn dda neu'n dda iawn. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn gwrando'n dda.



Mae gofal yn gallu bod yn well os ydy gweithwyr cymdeithasol yn siarad â phobl, nid dim ond â gofalwyr neu deulu.



Mae'r cyngor yn hyfforddi staff i ganolbwyntio ar bob person a beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Mae staff yn aml yn aros yn eu swyddi am amser hir. Mae hyn yn helpu pobl i ymddiried mewn staff. Ac mae'n helpu staff i ddysgu beth mae pobl yn ei hoffi.



Mae gan y rhan fwyaf o bobl gynlluniau sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a'u nodau. Ar ôl adolygiadau gyda'r seiciatrydd, mae pobl yn cael llythyrau mewn Saesneg Clir neu Gymraeg Clir a meddygon teulu yn cael copi.



Mae gan y cyngor dîm sy'n edrych I weld ydy'r cynlluniau gofal yn cyd-fynd gyda beth mae pobl ei angen a'i eisiau. Mae hyn yn helpu pobl i gael canlyniadau gwell.



Mae staff yn meddwl am sut mae pobl yn cyfathrebu. Maen nhw'n cynnig gwybodaeth yn yr iaith Gymraeg.



Mae staff yn defnyddio offer fel **matiau siarad**. Mae'r offer yma yn defnyddio lluniau neu symbolau wedi'u gosod ar mat i helpu pobl i rannu eu meddyliau, eu teimladau a'u dewisiadau.



Mae staff yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i wneud gwybodaeth yn hawd ei ddeall.



Fe fyddai defnyddio Hawdd ei Ddeall ar gyfer pob dogfen yn helpu hyd yn oed yn fwy.



Mae rheolwyr yn rhoi arweiniad a chefnogaeth ar amser. Dywedodd staff fod hyn yn helpu eu gwaith a'u bywyd personol. Mae gan staff sesiynau i ddysgu a myfyrio. Mae hyn yn helpu llesiant staff.



Mae'r cyngor yn dod â staff at ei gilydd i ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i bob person a'u rhwydwaith cymorth. Mae hyn yn helpu staff i ddysgu o apeliadau a chefnogi penderfyniadau diogel a theg.



Mae'r rhan fwyaf o adolygiadau yn digwydd ar amser. Mae barn pobl fel arfer yn cael eu cofnodi. Mae pobl yn gallu rhoi adborth i wneud gwasanaethau yn well.



Mae'r rhan fwyaf o staff y bwrdd iechyd yn cwblhau 3 lefel o hyfforddiant.



Mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn rhoi hyfforddiant am y deddfau **Deddf Iechyd Meddwl** a'r **Ddeddf Galluedd Meddyliol**. Mae hyn yn meithrin sgiliau staff ac yn diogelu hawliau pobl.

Pethau sydd angen bod yn well



Mae angen i wasanaethau gynnwys pobl ag anabledd dysgu yn fwy yn eu gofal. Dydy beth maen nhw'n feddwl ddim bob amser wedi'u hysgrifennu'n glir mewn cynlluniau neu gofnodion **diogelu**.



Mae **diogelu** yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.



Fe ddylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd roi beth mae pobl yn feddwl mewn cynlluniau a chofnodion **diogelu**.



Mae pobl yn aml yn cael help i siarad gan eu teulu neu ofalwyr.



Dydy eiriolaeth ffurfiol ddim yn cael ei gynnig yn ddigon. Mae eiriolaeth ffurfiol yn gymorth swyddogol i bobl ddweud beth maen nhw eisiau. Roedd rhai pobl ei angen ond doedden nhw ddim wedi cael ei gynnig.



Fe ddylai arweinwyr a staff gynnig eiriolaeth ffurfiol pryd bynnag y bydd rhywun ei angen.



Mae'r cyngor yn cyfarfod â staff unwaith y flwyddyn i gynllunio hyfforddiant.



Mae staff eisiau mwy o hyfforddiant gyda gwahanol asiantaethau. Maen nhw eisiau hyfforddiant manwl sy'n addas i'w swyddi eu hunain.



Yn y cyngor a'r bwrdd iechyd dydy adolygiadau o waith staff ddim bob amser yn cael eu gwneud ar amser.



Fe ddylai arweinwyr wneud hyfforddiant staff ac adolygiadau gwaith yn well.



Does gan y cyngor ddim digon o **Aseswyr Budd Gorau**. Mae'r rhain yn weithwyr sy'n edrych ar beth sydd orau i rywun sydd ddim yn gallu gwneud rhai dewisiadau drostyn nhw eu hunain.



Mae'r cyngor yn cynnig hyfforddiant, ond ychydig o weithwyr sy'n ei wneud. Efallai oherwydd nad ydy gwneud hynny yn rhoi tâl ychwanegol. Mae arweinwyr yn gwybod hyn ac yn edrych ar ffyrdd i'w wneud yn well.



Rhaid i'r cyngor hyfforddi digon o staff i wneud Asesiadau Budd Gorau fel eu bod yn bodloni rheolau cyfreithiol.



Mae rhai staff iechyd yn cyfarfod â phobl yn y gymuned. Mae rhai yn cyfarfod â phobl yn Alders House. Mae'r adeilad yma yn anodd dod o hyd iddo ac mewn cyflwr gwael. Dydy e ddim yn cyd-fynd â'r gwaith da mae staff yn ei wneud.



Fe ddylai'r bwrdd iechyd edrych ar y defnydd o Alders House. Rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod gan staff ystafelloedd diogel ac addas.

Gwaith da



Mae arweinwyr yn gwybod ei bod yn bwysig helpu pobl yn gynnar. Maen nhw'n canolbwyntio ar gryfderau pobl ac yn eu helpu i gadw'n ddiogel ac yn iach.



Maen nhw eisiau i bobl fod yn rhan o'u cymuned a chyrraedd eu nodau.

Mae'r cyngor yn gwneud newidiadau parhaol sy'n rhoi pobl yn gyntaf:



- Mae gwasanaethau oedolion yn rhan o dîm y cyngor sy'n rheoli gwasanaethau cymunedol.



- Mae 1 lle i bobl gael gwybodaeth a chyngor.



- Mae gwasanaethau cymorth cartref wedi ymuno i wneud 1 gwasanaeth **ailalluogi**.



Mae **ailalluogi** yn meddwl darparu cymorth i helpu pobl i adennill sgiliau a hyder ar ôl salwch, anaf neu arhosiad yn yr ysbyty.



Mae arweinwyr byrddau iechyd yn gwybod bod angen iddyn nhw stopio problemau yn fwy. Maen nhw'n edrych ar sut maen nhw'n gallu rhoi mwy o ofal yn y gymuned.



Fe ddylen nhw gynnwys adborth gan sefydliadau partner a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.



Mae pobl yn cael cefnogaeth gan dimau sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae gwahanol weithwyr yn helpu i gynllunio cefnogaeth.



Mae staff yn addasu cymorth yn gyflym pan fydd anghenion rhywun yn newid. Mae hyn yn helpu i stopio problemau ac yn rhoi canlyniadau gwell.



Mae gan rai pobl weithiwr lles ar gyfer asesiadau hirach. Mae hyn yn darganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw, fel hobiau a bod yn rhan o'r gymuned. Mae'n helpu pobl i beidio â defnyddio gwasanaethau dydd.



Mae pobl yn cael help i ymuno â grwpiau cymunedol a gweithio. Mae **ailalluogi** a chanolfan Tŷ Glas y Doran yn helpu pobl i wneud mwy drostyn nhw eu hunain. Mae rhai pobl yn symud o gymorth 24 awr i fyw yn fwy annibynnol.



Mae gwasanaeth dydd lleol yn gweithio gyda grwpiau eraill i helpu pobl i ymuno â gweithgareddau yn y gymuned. Mae hyn yn helpu pobl i wneud mwy o beth maen nhw'n ei fwynhau.



Mae cynlluniau sy'n helpu staff i gefnogi ymddygiad rhywun mewn ffordd dda yn gweithio'n dda pan mae'n cael ei defnyddio. Fe ddylai gweithwyr bob amser eu defnyddio pan mae angen.



Mae pobl yn cael cefnogaeth pan fydd pethau'n newid, gyda chynlluniau clir ar gyfer beth i'w wneud. Mae hyn yn helpu i stopio problemau ac yn adeiladu ymddiriedaeth.

Pethau sydd angen bod yn well



Yn aml, dydy pobl sy'n cael eu gofal wedi ei dalu gan y cyngor a'r bwrdd iechyd ddim yn cael cynnig taliadau uniongyrchol. Mae hyn yn lleihau dewis a rheolaeth pobl.



Mae Llywodraeth Cymru yn meddwl am adael i fyrddau iechyd roi taliadau uniongyrchol am ofal iechyd. Mae hyn yn gallu rhoi mwy o ddewis i bobl a helpu pobl i gael gofal gartref.



Rhaid i arweinwyr wneud yn siŵr bod taliadau uniongyrchol bob amser yn cael eu cynnig yn dilyn y gyfraith.



Fe ddylai'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwell dewis i bobl.



Fe wnaeth pobl ag anabledd dysgu Siarter Gwent ar gyfer Gweithio Gyda'n Gilydd. Mae'n dweud beth sy'n bwysig iddyn nhw, fel cyfleoedd teg i weithio.



Fe wnaeth astudiaeth ddangos bod pobl ag anabledd dysgu yn wynebu rhwystrau i hyfforddi a gwaith. Mae llawer eisiau mwy o gefnogaeth. Ac mae hanner eisiau mwy o gyfleoedd i weithio. Mae bwlch mawr rhwng beth mae pobl ei eisiau a beth maen nhw'n gallu ei gael.



Fe ddylai'r cyngor ddefnyddio'r astudiaeth yma i wella cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu ddod o hyd i waith.



Mae'r astudiaeth yn dweud y dylai cynlluniau lleol gynnwys gwaith i bobl anabl a chynlluniau cyfatebol i Gymru. Ac fe ddylai'r cyngor logi pobl anabl a gwneud yn siŵr bod pob rhan o'r cyngor yn eu croesawu.



Fe ddylai arweinwyr y cyngor barhau i weithio i gytuno i roi cefnogaeth.



Fe ddylai'r bwrdd iechyd weithio gyda gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu gwaith â chymorth.



Mae angen mwy o gefnogaeth ar bobl pan fydd ganddyn nhw newidiadau mawr mewn bywyd, fel symud i wasanaethau oedolion.



Mae arweinwyr yn gwybod bod hyn yn broblem ac yn edrych ar sut i wneud gwasanaethau yn well.



Fe ddylai arweinwyr barhau i wneud gwell cefnogaeth i bobl ar adegau o newid mawr.



Mae rhestrau aros byrddau iechyd yn gallu oedi cefnogaeth i bobl ac effeithio ar ganlyniadau. Mae rhestrau aros yn cael eu gwirio a'u rhoi yn nhrefn risg.



Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i edrych ar restrau aros a chofnodi'n glir sut maen nhw'n rhoi trefn ar bobl.



Mae staff yn cwblhau mwy o asesiadau gofalwyr ac yn eu gwneud ar amser.



Mae gofalwyr yn gallu cael cymorth gan yr Hwb Gofalwyr a gwasanaeth Pontio'r Bwlch. Ond dydy gwybodaeth am wasanaethau ddim bob amser yn glir. Mae gan ofalwyr ganlyniadau gwahanol hefyd ar ôl asesiadau.



Fe ddylai arweinwyr siarad â gofalwyr a dod o hyd i ffyrdd o wella gwasanaethau a chefnogaeth.



Yn 2024 fe wnaeth **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** rannu adroddiad am asesiadau anghenion gofalwyr. Mae ganddo syniadau ar bethau fel rhannu gwybodaeth a hyfforddiant.



Fe ddylai arweinwyr y cyngor ddefnyddio'r adroddiad i wella eu gwasanaethau.

Gwaith da



Mae cyfathrebu rhwng staff yn barchus ac yn gweithio'n dda. Dywedodd staff fod y bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio'n **dda** neu'n **dda iawn**.



Mae rheolwyr yn gadael i weithwyr roi cynnig ar syniadau newydd. Fe wnaethon nhw ddweud fod rheolwyr ac arweinwyr yn gyfeillgar, medrus a chefnogol.



Mae ffocws ar ddysgu, cryfderau a chymuned. Mae'r bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio fel un tîm.



Mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio yn yr un adeilad. Mae hyn yn rhoi gwell mynediad i bobl at wasanaethau a llai o oedi. Mae'n helpu staff i weithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhoi gwell gofal i bobl.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu cael gwasanaethau yn gyflym, pan fydd asesiad yn dangos bod ganddyn nhw angen.



Mae rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, **ailalluogi** a chartrefi gofal yn fyr. Mae hyn yn dangos gweithio a chynllunio da gyda darparwyr gwasanaeth.



Mae arweinwyr y cyngor a'r bwrdd iechyd eisiau gwella fforymau darparwyr gwasanaethau. I'w helpu i weithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau.



Fe wnaeth y cyngor newid ei gynlluniau ar gyfer prynu gwasanaethau gofal a chymorth yn 2025 i gyd-fynd â rheolau Llywodraeth Cymru. Mae gan arweinwyr gynllun hyd at 2030 ar gyfer pa ofal sydd ei angen ar bobl a pha wasanaethau y byddan nhw'n eu prynu.

Pethau sydd angen bod yn well



Mae'r swydd nyrs arweiniol yn wag, a does dim digon o nyrsys. Mae hyn yn achosi problemau gyda rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau.



Fe ddylai'r bwrdd iechyd logi mwy o nyrsys, i wella arweinyddiaeth a helpu i wneud rhestrau aros yn fyrrach.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael cefnogaeth gyda'u hiechyd corfforol. Mae pobl yn cael offer, newidiadau gartref, a help gyda meddyginiaethau. Ond mae problemau:



- Dydy pobl ag anabledd dysgu ddim bob amser yn gallu cael help gan dimau anabledd corfforol.



- Dydy llawer o bobl ddim yn gallu gweld eu meddyg teulu ar amser.



Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda phractisau meddygon teulu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu harchwiliad iechyd blynyddol a meddyg teulu penodol.



Fe ddylai arweinwyr ddod o hyd i ffyrdd i'w gwneud hi'n haws i bobl weld eu meddyg teulu. A chael help gan dimau anabledd corfforol.



Mae'r cyngor yn cynnig seibiannau byr a lleoliadau **Cysylltu Bywydau**. Mae llawer o'r rhain y tu allan i'r ardal leol. Mae rhai gofalmwyr yn dweud bod hyn yn anodd ac yn gallu oedi cefnogaeth.



Fe ddylai arweinwyr barhau i wrando ar bobl a gofalmwyr a gwneud y gwasanaethau yma yn well i ateb anghenion yn lleol.

Gwaith da



Mae staff yn dilyn y rheolau wrth ddelio â phryderon **diogelu**. Mae rheolwyr yn edrych ar y gwaith yma ac yn cynnwys arbenigwyr pan mae angen.



Mae gwiriadau'n digwydd ar amser ac mae cofnodion yn dangos sut mae staff wedi gwneud pob penderfyniad. Mae pryderon yn cael eu trosglwyddo i uwch staff pan mae angen. Mae hyn yn helpu i gadw pobl yn ddiogel.



Mae staff yn cwblhau ffurflenni penderfyniad **Budd Gorau** yn dda. Maen nhw yn:

- Ysgrifennu rhesymau clir dros bob penderfyniad.
- Siarad â'r arbenigwyr ac aelodau o'r teulu cywir.
- Meddwl am anghenion pob person a'u bywyd.



Mae hyn yn dilyn y gyfraith ac yn cefnogi penderfyniadau teg.



Mae arweinwyr y cyngor yn defnyddio offeryn sy'n dangos gwybodaeth am wasanaethau iddyn nhw. Mae hyn yn eu helpu i weld eu bod yn dilyn y gyfraith.



Mae rheolwyr yn gwneud gwiriadau i:

- Edrych ar sut mae staff yn gweithio.
- Sylwi ar broblemau cyffredin.
- Deall beth sydd mae pobl ei angen.



Mae hyn yn helpu arweinwyr i weld beth sy'n gweithio'n dda. A beth sydd angen bod yn well.



Mae arweinwyr byrddau iechyd yn edrych ar beth sy'n gweithio'n dda trwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd yma yn edrych ar ganlyniadau, arian, staffio a risgiau. Mae hyn yn helpu arweinwyr i wybod am broblemau a gwneud gwasanaethau'n well.

Pethau sydd angen bod yn well



Dydy staff ddim bob amser yn ysgrifennu barn y person mewn asesiadau risg a dogfennau **diogelu**. Fe ddylen nhw gynnwys beth mae'r person yn feddwl ac weithiau beth mae gofalwyr, teulu, neu eiriolwyr yn feddwl.



Fe ddylai arweinwyr helpu staff i wneud hyn yn rhan o'u gwaith bob dydd.



Mae yna offeryn cenedlaethol i helpu i benderfynu pa achosion **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** sydd fwyaf brys. Mae'r rhestr aros yn cael ei wirio'n aml ond mae oedi yn dal i ddigwydd. Does dim digon o staff na meddygon hyfforddedig.



Mae **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** yn broses gyfreithiol. Mae'n cael ei ddefnyddio pan nad ydy person yn gallu penderfynu am eu gofal neu eu triniaeth eu hunain. Mae'n caniatáu i staff gyfyngu ar ryddid rhywun i'w cadw'n ddiogel rhag niwed.



Fe ddylai arweinwyr barhau i godi'r problemau yma gyda'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig.



Mae staff yn chwilio am bobl yn y gymuned a allai fod angen amddiffyniad cyfreithiol os ydy eu rhyddid yn gyfyngedig.



Mae staff yn defnyddio offeryn i ddewis yr achosion mwyaf brys ac anfon y rhain i'r Llys Gwarchod. Mae'r llys yn brysur, felly dydy rhai pobl ddim yn cael yr amddiffyniad cyfreithiol y dylen nhw ei gael.



Rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod staff yn dod o hyd i bawb allai gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Ac anfon achosion i'r Llys Amddiffyn ar amser.



Mae yna systemau i edrych ar **Drefnidadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid**. Mae oedi yn digwydd oherwydd nad oes digon o staff nac adnoddau. Mae oedi yn effeithio ar geisiadau, adnewyddiadau ac adolygiadau.



Fe ddylai arweinwyr barhau i edrych ar y system a gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig i wneud pethau'n well.

Beth sy'n digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd drwsio'r pethau sydd angen bod yn well.



Yn **Arolygiaeth Gofal Cymru**, fe fyddwn ni'n edrych ar y gwaith mae'r cyngor yn ei wneud.



Fe ddylai'r cyngor rannu beth sy'n gweithio'n dda gyda chynghorau eraill i wneud gwasanaethau yn well ar draws Cymru.



Yn **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, fe fyddwn ni'n edrych ar bethau iechyd sydd angen eu gwella gyda Chynllun Gwella.



Fe fydd yn dweud beth sydd angen newid, pwy fydd yn ei wneud, a phryd.



Rydych chi'n gallu darganfod sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth yn:
www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol



Fe wnaethon ni gynnig y dewis i bobl gymryd rhan yn y Gymraeg, ond doedd neb eisiau ei ddefnyddio.



Diolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid sydd wedi helpu gyda'n gwiriadau.

Geiriau anodd

Ailalluogi

Mae ailalluogi yn meddwl darparu cymorth i helpu pobl i adennill sgiliau a hyder ar ôl salwch, anaf neu arhosiad yn yr ysbyty.

Archwiliad Sicrwydd

Mae Archwiliad Sicrwydd yn edrych i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.

Diogelu

Mae diogelu yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn broses gyfreithiol. Mae'n cael ei ddefnyddio pan nad ydy person yn gallu penderfynu am eu gofal neu eu triniaeth eu hunain. Mae'n caniatáu i staff gyfyngu ar ryddid rhywun i'w cadw'n ddiogel rhag niwed.

WG53787
ISBN 978-1-80633-884-9